Blaenau Gwent
County Borough Council

**Teitl:** Cogydd Peripatetig

**Lleoliad:** Y Ganolfan Ddinesig, Blaenau Gwent

**Cyfarwyddiaeth:** Amgylchedd ac Adfywio

**Cyfeirnod:** BG01828

**Cyflog:** Gradd 4 (£25,584 to £27,711 pro rata/y flwyddyn)

**Oriau:** 25 awr yr wythnos, yn ystod y tymor yn unig 39 wythnos y flwyddyn

**Contract:** Parhaol

## Crynodeb Swydd

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio dan oruchwyliaeth yr Arweinydd Tîm Cynorthwyol/Rheolwr i ddarparu'r gwasanaeth arlwyo gan arsylwi'r holl reoliadau ar hylendid bwyd ac iechyd a diogelwch.

Diben swydd y Cogydd Peripatetig yw darparu'r gwasanaeth Arlwyo mewn gwahanol safleoedd ledled yr awdurdod.

Goruchwylio eraill yn y gweithle, gan weithio o fewn canllawiau a nodir gan Wasanaethau Arlwyo Blaenau Gwent i sicrhau y cyflawnir y safonau perfformiad cywir.

## Hysbyseb Lawn

Mae cyfle wedi codi o fewn Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd ac Adfywio ar gyfer Cogydd Peripatetig i weithio dan oruchwyliaeth yr Arweinydd Tîm Cynorthwyol i gynhyrchu gwasanaeth Arlwyo Prydau Ysgol, gan arsylwi'r holl reoliadau ar hylendid bwyd ac iechyd a diogelwch. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymgymryd ag ystod llawn dyletswyddau Cogydd yn absenoldeb y Cogydd i gynnwys yr holl ddyletswyddau a gweithdrefnau gweinyddol.

Gellid gofyn i ddeiliad y swydd lanw dros absenoldeb tymor hir neu dymor byr o fewn Gwasanaeth Prydau Ysgol Blaenau Gwent.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus City & Guilds 706/1, 706/2 neu NVQ Lefel 1/2 mewn Arlwyo a Thystysgrifau Lefel 2 a 3 Diogelwch Bwyd. Bydd gennych brofiad o weithio o fewn y diwydiant Arlwyo gyda sgiliau arlwyo ymarferol.